ATODLEN 2

ACHOSION AC AMGYLCHIADAU LLE GELLIR CYFLOGI ATHRAWON ANGHYMWYSEDIG MEWN YSGOLION

# RHAN III

## ATHRAWON COFRESTREDIG

**12.**—(1) Bydd y paragraff hwn yn gymwys i berson nad yw'n athro cymwysedig ond sydd wedi cael awdurdodiad i addysgu yn unol â'r Rhan hon o'r Atodlen hon.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rhan hon o'r Atodlen hon, gellir cyflogi'r fath berson fel athro mewn ysgol, ac eithrio mewn uned cyfeirio disgyblion.

**13.**—(1) Yn unol ag argymhelliad y corff argymell gall y Cynulliad roi awdurdodiad addysgu i'r person a enwir yn yr argymhelliad hwnnw.

(2) Bydd argymhelliad i awdurdodi yn cynnwys y manylion hynny y bydd y Cynulliad yn penderfynu arnynt a bydd hefyd yn cynnwys y manylion a nodir yn is-baragraffau (3) i (6).

(3) Bydd yn cynnwys datganiad gan y corff argymell fod y person a enwir yn yr argymhelliad —

(a) yn ei farn ef yn berson addas i fod yn athro mewn ysgol;

(b) (i) wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen o hyfforddiant proffesiynnol ar gyfer athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac sy'n cael ei gydnabod fel rhaglen hyfforddiant o'r fath gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno, neu

(ii) y bydd wedi cyrraedd 24 oed erbyn y dyddiad pan gynigir iddo gychwyn ei waith fel athro cofrestredig a'i fod wedi cwblhau'n llwyddiannus —

(aa) dim llai na dwy flynedd o addysg uwch yng Nghymru neu Loegr, neu

(bb) addysg gymaradwy naill ai'n llawn-amser neu'n rhan-amser boed yng Nghymru neu Loegr neu yn rhywle arall;

(c) wedi cyrraedd y safon ofynnol mewn Saesneg a mathemateg i gael gradd C yn y Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd;

(d) os ganwyd y person cyn neu ar ôl 1 Rhagfyr 1979 ac yn ystod y cyfnod ei awdurdodiad, y bwriedir iddo addysgu disgyblion o dan 11 oed, wedi llwyddo i gyrraedd mewn pwnc gwyddonol unigol neu mewn pwnc gwyddonol cyfun y safon a ofynnir i gael gradd C yn y Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd; ac

(e) wedi'i dderbyn ar raglen astudio sy'n arwain at ddyfarniad o radd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol.

(4) Bydd yn cynnwys manylion o'r hyfforddiant y bwriedir ei roi i'r person a enwir yn yr argymhelliad a hyd cyfnod yr hyfforddiant arfaethedig.

(5) Bydd yn cynnwys manylion am yr ysgol neu'r ysgolion lle bwriedir neu lle gellir cyflogi'r person a enwir yn y cais (ac na fydd, yn unol â pharagraff 12(2), yn cynnwys uned cyfeirio disgyblion).

(6) Bydd yn cynnwys enw'r sefydliad neu'r corff a fydd yn gyflogwr i'r person.

**14.** Bydd hyd cyfnod arfaethedig yr hyfforddiant yn briodol i angen y person am brofiad a hyfforddiant o addysgu ymarferol a hyfforddiant, ac yn achos argymhelliad cyntaf lle bydd y person yn cael ei gyflogi'n amser llawn, ni fydd yn llai na un flwyddyn nac yn fwy na ddwy flynedd.

**15.** Lle mae'r corff argymell wedi cyflwyno argymhelliad i'r Cynulliad, gellir cyflogi'r person a enwir yn yr argymhelliad hwnnw dros dro fel athro cofrestredig yn yr ysgol neu'r ysgolion a bennir yn yr argymhelliad tan 14 diwrnod ar ôl i'r Cynulliad roi gwybod i'r corff argymell ei benderfyniad i roi'r awdurdodiad neu beidio.

**16.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), bydd awdurdodiad yn parhau mewn grym am gyfnod yr hyfforddiant a gynigir yn yr argymhelliad.

(2) Bydd awdurdodiad yn dod i ben yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol —

(a) os bydd athro cofrestredig yn peidio â chael ei gyflogi yn yr ysgol a bennwyd yn yr argymhelliad am awdurdodiad neu, lle'r oedd yr argymhelliad yn pennu mwy nag un ysgol, os yw'n peidio â chael ei gyflogi yn unrhyw un o'r ysgolion a bennir felly oni bai bod y naill beth neu'r llall yn digwydd oherwydd newid statws yr ysgol neu'r ysgolion (fel y bo'r achos) i fath gwahanol o ysgol neu ysgolion; neu

(b) os yw'r athro graddedig yn peidio a chael ei gyflogi gan y sefydliad neu'r corff a enwir yn yr argymhelliad gan eithrio —

(i) pan fydd hynny'n digwydd oherwydd newid statws yr ysgol lle'i cyflogir i fath gwahanol o ysgol, neu

(ii) pan fydd y cyflogwr a enwir yn yr argymhelliad yn awdurdod addysg lleol ac yn union ar ôl peidio â chael ei gyflogi gan yr awdurdod hwnnw mae'n cael ei gyflogi gan awdurdod addysg arall.

**17.** Bydd y corff argymell yn peri i'r athro cofrestredig gael yn ystod cyfnod yr awdurdodiad yr hyfforddiant, y rhoddwyd y manylion amdano yn unol â pharagraff 13(4).

**18.** Lle mae'r awdurdodiad yn dirwyn i ben yn rhinwedd paragraff 16(2) bydd y corff argymell yn adrodd ffeithiau'r achos i'r Cynulliad.